

## HOPKIN, LEWIS (c. 1708 - 1771), bardd

**Enw:** Lewis Hopkin  
**Dyddiad geni:** c. 1708  
**Dyddiad marw:** 1771  
**Plentyn:** Lewis Hopkin  
**Plentyn:** Hopkin Hopkin  
**Rhiant:** Lewis Hopkin  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd  
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth  
**Awduron:** Griffith John Williams, Robert Thomas Jenkins

Mab Lewis Hopkin o Lanbedr-ar-fynydd ym Morgannwg, un o ddisgynyddion y cwndidwr, Hopcyn Tomas Phylip o Gelli'r-fid. Dysgodd grefft saer coed, ac yr oedd yn feistr ar lawer o grefftau eraill. Pan oedd yn wr ifanc, symudodd i blwyf Llandyfodwg, ac yno, yn Hendre Ifan Goch, y bu ei gartref hyd ei farw yn 1771. Troes yn Anghydfurfiwr, ac yr oedd yn aelod (ac yn ddiakon, yn ôl rhai) yng nghapel y Cymer. Dywaid ei fab y byddai'n cynnal gwasanaethau yn nhai ffermydd y Blaenau, a bod ganddo bulpud a ddefnyddiai with bregethu yn yr ysgubor yn Hendre Ifan Goch. Yr oedd yn wr pwysig yng nghylchoedd Anghydfurfiol y Blaenau, a bu ei fab, Lewis, yn weinidog ar eglwys Annibynnol Bromyard yn sir Henffordd. Ond yr oedd hefyd yn ffigur amlwg yn yr adfywiad llenyddol a welwyd ym Morgannwg yn hanner cyntaf y 18fed ganrif. Ymroes i feistroli celfyddyd cerdd dafod, ac i drefnu eisteddfodau barddol tebyg i'r rhai a gynhelid yn y Gogledd. Gyrrodd rai o'i gynhyrchion i'r cylchgrawn, *Trysorfa Gwybodaeth*, 1770, ac yn 1813 cyhoeddodd ei fab-yng-nghyfraith, John Miles, gasgliad o'i weithiau prydyddol, a rhoi iddo'r teitl; *Y Fel Gafod*. Nid yw'n fardd mawr, ond dengys ei waith ôl yr ymdrech a wnaethai i astudio'r iaith, ac i feistroli'r gynghanedd a'r pedwar mesur ar hugain. Ef, yn ddiamau, oedd y gwr galluocaf a gysylltir â'r adfywiad hwn, a'r un a gafodd fwyaf o ddylanwad ar fywyd llenyddol Morgannwg yn yr oes honno. Ac ef oedd athro barddol **Edward Evan**, a chydnebydd '**lolo Morganwg**' ei fod yn un o'r rhai a fuasai'n ei hyfforddi. Yr oedd yn wr tra diwylliedig. Mynnir ei fod yn dra chyfarwydd â llenyddiaeth Saesneg y 18fed ganrif, ac yr oedd ganddo lyfrau Lladin a Ffrangeg yn ei lyfrgell. Claddwyd ef yn Llandyfodwg, a chyhoeddodd '**lolo Morganwg**' farwnad iddo yn 1772, o dan y teitl, *Dagrau yr Awen*.

Am hanes mab arall i Lewis Hopkin sef Hopkin Hopkin (1737 - 1754) ' Hopcyn Bach ' gweler *Gent. Mag.* 1754, 191, a *Hopkiniaid Morgannwg*, 108-11, a **Peate**: *Guide to the Collection of Welsh Byegones* yn A.G.C., 1929, 79.

### Awduron

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

*Hopkiniaid Morgannwg* (1909), 1909, 70-148

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 1948, 231-6, 282-9

Iorwerth C. Peate *Guide to the Collection of Welsh Byegones*, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 1929, 79

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Lewis Hopkin](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q13129538](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

